# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod

| | |
|---|---|
| Teitl y Grŵp Trawsbleidiol: | **Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymru Ryngwladol**<br><br>**Sut y gall Cymru fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd sy'n codi wrth i dîm pêl-droed dynion Cymru gynrychioli ein gwlad ar y llwyfan rhyngwladol yng Nghwpan y Byd yng Nghatar?** |
| Dyddiad: | Dydd Mawrth 05 Gorffennaf 2022<br>12:00 to 13:00 |
| Lleoliad: | Zoom |

## Yn bresennol:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Heledd Fychan MS | (Cadeirydd) |
| Andy Jones | Cyd-sylfaenydd & Threfnydd, FOCUS Wales |
| Betsan Jones, | Arbenigwr cynnwys digidol, Llawrydd |
| Brian Davies, | Prif Swyddog Gweithredol, Chwaraeon Cymru / Sport Wales |
| Brooke Webb, | Senedd |
| Carmen Smith, | Pennaeth Staff, Grŵp Senedd Plaid Cymru |
| Catrin Morris, | Swyddog Cyfathrebu Digidol Rhyngwladol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |
| David Warren, | Pennaeth Ymgysylltu Rhyngwladol, Llywodraeth Cymru |
| Deborah Keyser, | Cyfarwyddwr, Tŷ Cerdd – Canolfan Gerddoriaeth Cymru |
| Eluned Hâf, | Cyfarwyddwr, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |
| Gareth Kear, | Cyfarwyddwr Masnachol, Hockey Wales / Hoci Cymru |
| Gavin Price, | Arweinydd Cynghrair – Y Deyrnas Unedig / Ewrop, Cynghrair Diplomyddiaeth Chwaraeon |
| Hayley Richards, | Pennaeth Datblygu Rhaglenni a Pholisi, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru |
| Jordan Griffiths, | Swyddog Cyfathrebu ac Ymchwil i Luke Fletcher AS |

| | |
|---|---|
| Professor Laura McAllister, | Athro Polisi Cyhoeddus a Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd |
| Lowri Jones, | Uwch Reolwr Partneriaethau, Llywodraeth Cymru |
| Matt Newman, | Prif Swyddog Gweithredol, Run 4 Wales |
| Morgan Lloyd, | Strategydd Creadigol, Livingston+Lloyd |
| Najma Hashi, | Swyddog Cynorthwyol Ysgogi Newid, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| Neal Thompson, | Cyd-berchennog, Focus Wales |
| Noel Mooney, | Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Bêl-droed Cymru |
| Rhys Morgan, | Cyfieithydd, Senedd |
| Rob Holt, | Dirprwy Gyfarwyddwr Datblygu Twristiaeth a Digwyddiadau Mawr Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Roger Davies, | Datblygu ac Ymgysylltu (Chwaraeon), Prifysgol Abertawe |
| Shahinoor Alom, | Swyddog Cyfathrebu a Chysylltiadau Cymunedol i John Griffiths AS, Senedd |
| Spencer John, | Cyn chwaraewr rygbi |
| Tim Hartley | Awdur ac Ymgynghorydd |
| Tim Powell | |
| Wil Rees | |
| Zélie Flach, | Swyddog Ewropeaidd, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |
| Jenny Scott, | British Council Cymru (Ysgrifenyddiaeth) |
| Mathilda Manley-Lewis, | Swyddog Cymorth Prosiect, British Council Cymru |
| Natasha Nicholls, | Pennaeth Celfyddydau, British Council Cymru |
| Rebecca Wignall, | Rheolwr Celfyddydau, British Council Cymru |

## Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| David Anderson, | Director General, Amgueddfa Cymru |
| Elaine Canning, | Swansea University |

# Crynodeb o'r cyfarfod

**1. Gair o Groeso gan y Cadeirydd**

Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, a llongyfarchodd dîm pêl-droed dynion Cymru ar gyrraedd rowndiau terfynol Pencampwriaeth Cwpan y Byd FIFA yng Nghatar gan dynnu sylw at y platfform anhygoel y mae hyn yn ei gynnig i Gymru. Cyn agor y cyfarfod i sylwadau a chwestiynau, gwahoddwyd Noel Mooney, Yr Athro Laura McAllister ac Eluned Haf i roi cyflwyniadau byr ar sut y gall Cymru fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd sy'n codi wrth i dîm pêl-droed dynion Cymru gynrychioli ein gwlad ar y llwyfan rhyngwladol yng Nghwpan y Byd yng Nghatar.

2. **Cyflwyniad gan Noel Mooney, Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW)**

Cyfle:

- Bydd biliynau o lygaid ar Gymru – potensial marchnata anferth.
- Mae angen i Gymru fanteisio'n llawn ar hyn a bod yn uchelgeisiol.
- Mae pob gwlad yn y byd yn chwarae pêl-droed.
- Pêl-droed yw'r gamp sy'n denu'r mwyaf o sylw a gwylwyr a denu'r mwyaf o bobl i gymryd rhan hefyd.

Beth sydd ei angen arnom:

- Strategaeth glir gyda chydweithredu agos rhwng Croeso Cymru (Visit Wales), Cymru Greadigol (Creative Wales) a Masnach Cymru (Trade Wales).
- Arweinydd prosiect.
- Symud yn gyflym.
- Partneriaeth rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn helpu i ateb y galw o ran masnach, cynaliadwyedd, lles ayb
- Cadarnhad o faint y gall y llywodraeth ei ddarparu o ran cyllid a phersonél.

Etifeddiaeth:

- Mae gwella adnoddau ar lawr gwlad yn bwysig i sicrhau fod yr etifeddiaeth yn parhau.
- Ein Cenhadaeth - Cymru leol, fyd-eang.
- Dangos i'r byd fod Cymru yn wlad fodern a hyderus ee ar faterion fel Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), yr Iaith Gymraeg, Cynaliadwyedd neu Les
- Sicrhau fod Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn cael ei gweld fel y gymdeithas bêl-droed orau yn y byd. Mae angen cefnogaeth y Senedd a chefnogaeth drawsbleidiol arnom i gyflawni hyn.

Y Sefyllfa Bresennol:

- Cawsom gyfarfodydd addawol gyda Llywodraeth Cymru yr wythnos ddiwethaf – Jason Thomas oedd yn arwain ar hyn ynghyd â'r Gweinidog dros yr Economi.
- Cawsom gyfarfod gyda Llysgennad y Deyrnas Unedig – o ran diwylliant, rydym eisiau rhoi pwyslais ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a gyda golwg ar Gatar mae gyda ni gynlluniau ar gyfer hyn – ond ni allwn eu datgelu eto. Mae'n rhaid i ni fod yn oddefgar o ddiwylliannau eraill a gwrando, yn ogystal â defnyddio ein platfform ar gyfer trafod cadarnhaol.
- Gweithgareddau celfyddydol – ni allwn eu cyd-lynnu. Mae angen help gan Cymru Greadigol, a Llywodraeth Cymru i fod yn rheolwyr prosiect ar gyfer hyn.

**3. Cyflwyniad gan Yr Athro Laura McAllister, Athro Polisi Cyhoeddus a Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd**

Cyfle:

- Byddai'n sgandal pe na baem ni'n manteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn.
- Mae cyrhaeddiad pêl-droed yn ymestyn y tu hwnt i'r gamp ei hun - i bob cymuned a chornel yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni gynyddu proffil unigryw Cymru ledled y byd.
- Mae cyrhaeddiad byd-eang pêl-droed yn anhygoel – gwyliodd dros hanner poblogaeth y byd (dros 4 oed) gêm derfynol ddiwethaf Cwpan y Byd.

- Rydyn ni'n chwarae yn erbyn Unol Daleithiau America (poblogaeth: 331 miliwn) ac Iran (poblogaeth: 86 miliwn) – marchnadoedd mawr y gallwn werthu Cymru iddynt.

Beth sydd ei angen arnom:

- Eglurder o ran ein hamcanion
- Strategaeth.
- Symud yn gyflym.
- Gweledigaeth sy'n ateb gofynion pêl-droed a thynnu'r sectorau eraill at ei gilydd.
- Llysgenhadon yn bresennol 'yn yr ystafell' - i rwydweithio a gweithio'u ffordd yn effeithiol o gwmpas yr ystafell er mantais i Gymru.
- Adnoddau: Cyllid a phersonél.
- Arweinwyr â'r gallu i weithredu sy'n angerddol ac yn awyddus i wahodd y byd i Gymru.
- Cydlyniant a phartneriaeth
- Cyd-destun y Deyrnas Unedig: Lloegr oedd un o'r gwledydd cyntaf i gymhwyso, ac mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'i phartneriaid amrywiol eisoes wedi llunio rhaglen i'w cefnogi. Dylem ddisgwyl yr un peth yn union i Gymru, ond gyda'n brandio ni a'n hunaniaeth ein hunain. Mae angen i Lywodraeth Cymru lywio hyn.

Canlyniadau i Gymru:

- Twf cynaliadwy i bêl-droed
- Cefnogaeth i dîm y menywod gymhwyso ar gyfer pencampwriaeth nesaf Cwpan y Byd neu'r Ewros nesaf.
- Adnoddau da/darpariaeth ar lawr gwlad i blant ac oedolion – ble bynnag maen nhw'n byw.
- Mae angen i sectorau eraill fel addysg uwch, masnach, diwydiannau creadigol, twristiaeth a lletygarwch fod yn glir ynglyn â'r canlyniadau y maent yn eu disgwyl fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i wireddu hynny.

Nododd y Cadeirydd bod angen dull gweithredu unedig - "Tîm Cymru' - yn hytrach na'r Gymdeithas Bêl-droed ar ei phen ei hun; ac y byddai archwilio gofynion trawsbleidiol a thraws-sector yn ddiddorol er mwyn rhoi'r hwb ychwanegol yna i'r llywodraeth. Dangosodd yr adroddiad a gomisiynwyd gan y British Council sut y gall diplomyddiaeth chwaraeon gysylltu gyda'r celfyddydau a diwylliant; ac mae Eluned yn mynd i drafod hynny.

**4. Eluned Haf, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru**

Cyfle:

- Mae chwaraeon a'r celfyddydau yn cyd-fynd yn naturiol – yng Nghymru yn anad unman arall.
- Codi proffil Cymru a chreu cysylltiadau diwylliannol newydd.
- Mae gyda ni stori i'w hadrodd – am wlad fach â chalon fawr.
- Bwrw golau newydd ar hen ragfarnau.
- Rhannu ein gwerthoedd o ran cenedlaethau'r dyfodol a Lles.
- Hybu hunan-hyder.

Gwersi a ddysgwyd wrth weithio gyda thîm Cymru mewn ymgyrchoedd blaenorol:

- Mae'r etifeddiaeth yn hanfodol.
- Mae'n bwysig cyflwyno brand Cymreig dilys.
- Sicrhau ei bod yn bosib i ymgyrchoedd eraill, gan gynnwys ymgyrch Brydeinig, gefnogi ein hymgyrch ni.
- Gweithio ar draws gwahanol sectorau, ee twristiaeth, busnes, lletygarwch.
- Arwain gyda'n gwerthoedd, a'u gosod wrth galon yr ymgyrch.
- Gall cynnwys perthnasol wedi'i frandio'n dda roi hwb i'r chwaraewyr a denu ymwelwyr newydd i Gymru.
- Mae gan gynnwys digidol gyrhaeddiad sylweddol.

Gorffennodd Eluned Hâf ei chyflwyniad gyda ffilm am yr hyn y gall y celfyddydau ei gynnig – ffilm a gynhyrchwyd gyda Brand Wales ar gyfer gŵyl Celtic Connections.

**5. Trafodaeth a sylwadau**

Gavin Price: Dylid gweld hyn fel buddsoddiad ar gyfer y dyfodol. Mae angen inni fod yn glir am yr hyn yr ydym yn gofyn amdano gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae Cwpan y Byd y Menywod yn Awstralia a Seland Newydd ar y gorwel; gan fod dyheadau ar gyfer galluogi symud heb gyfyngiadau rhwng y gwledydd hynny a'r Deyrnas Unedig, a oes cyfleoedd yma i bartneru chwaraeon gyda gwahanol sectorau?

Spencer John: Mae amser yn prysur ddiflannu ac erbyn diwedd yr wythnos nesaf dylem gyfyngu ein hunain i dri pheth yn unig yr ydym am eu cyflawni – a'u rhoi ar waith. Gall y rhain fod yn bethau sylweddol ee sicrhau swm penodol o'r Dwyrain Canol ar gyfer datblygu pêl-droed llawr gwlad, ond mae'n rhaid gwneud penderfyniadau. Mae pryder am y llety sydd ar gael yng Nghatar – a allai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei dylanwad i sicrhau fod llety ar gael i gefnogwyr o Gymru a Lloegr?

Gavin Price: Does dim rhaid cyfyngu ein strategaeth i Gatar yn unig, gallwn ei gyfeirio at yr Unol Daleithiau hefyd.

Hayley Richard: A ellid defnyddio prif amcanion Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru fel fframwaith? O ran y trydydd sector, rhan bwysicaf y strategaeth honno yw'r ymrwymiad i greu Cymru sy'n gweithredu'n gyfrifol yn fyd-eang – ein gwerthoedd o ran hawliau dynol, hawliau menywod, hawliau mudwyr a hawliau LHDTCRhA+. Mae'n dda clywed fod gan y Gymdeithas Bêl-droed gynlluniau o ran hynny, ond mae angen cynlluniau tebyg ar 'Dîm Cymru' ac mae angen eu cyd-gysylltu.

Laura McAllister: Gallwn fynd i'r afael â rhai o'r delweddau hen ffasiwn o'n gwlad a dangos ein bod yn wlad fodern sy'n edrych allan i'r byd, lle mae cydraddoldeb yn bwysig a lle mae ffocws ar gynaliadwyedd.

Noel Mooney: Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn i ni. Rydym wedi cynnal trafodaethau buddiol am ariannu gwahanol barthau cefnogwyr mewn canolfannau lletygarwch - i hybu'r diwydiant. Rwy'n derbyn gweithiau celf yn gyson; felly mae angen corff i ddelio â hynny. Dylem fod yn cysylltu ag artistiaid i weld os ydyn nhw eisiau cyfrannu i'r digwyddiad yma. Rhaid edrych tua'r dyfodol – ac fe hoffwn ein gweld ni'n cynnal yr EWROS yn 2028.

Gavin Price: A allem ni greu parth cefnogwyr yn yr Unol Daleithiau a chynnal digwyddiadau o gwmpas hynny o ran ein gwerthoedd?

Tim Hartley: Mae cefnogwyr yn llysgenhadon ardderchog ac maen nhw'n adnodd sy'n rhad ac am ddim.

Rob Holt: Lleisiodd Llywodraeth Cymru bryderon ynglyn â llety gyda'r Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a gyda'r Llysgennad pan yr oedd ef draw yma. Mae logisteg yn dipyn o her yng Nghatar, felly mae angen bwrw golygon tua'r Unol Daleithiau a swyddfeydd rhyngwladol o gwmpas y byd. Byddai'n wych o ran y diwydiant lletygarwch pe gellid cynnal parthau cefnogwyr, ond nid yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru eu hariannu. Mae gyda ni gyfarfod y prynhawn yma gydag ymgyrch GREAT – byddwn yn edrych am gyfleoedd i sicrhau fod llais a gwerthoedd Cymru yn rhan o hynny. Byddwn hefyd yn edrych ar gynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a sut y gallwn fanteisio ar gefn y rheini.

Eluned Haf: Gallai ymgyrch GREAT fod yn beth gwych, ond pan mae'n cymryd drosodd mae peryg iddo ein tanseilio ee pan gafodd Alun Wyn Jones ei frandio â baner Jac yr Undeb..

Laura McAllister: O ran Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ni ddylai ein disgwyliadau fod yn isel. Mae gan Gymru bob hawl i ddisgwyl yr un gefnogaeth a roddwyd i Gymdeithas Bêl-droed Lloegr. Mae angen inni gael gwybod pa adnoddau y byddwn ni'n eu cael ganddyn nhw.

Rob Holt: Fe godwyd y pwyntiau yma gyda'r Llysgennad yr wythnos ddiwethaf; mae gyda ni berthynas waith dda ac mae Lloegr, fel Cymru, yn disgwyl am gadarnhad ynglyn â logisteg. Mae GREAT yn cynrychioli'r pedair gwlad.

Cytunodd Noel Mooney fod y Llysgennad wedi ymateb yn dda i'r materion a godwyd.

**6. Crynodeb y Cadeirydd**

Nododd y Cadeirydd fod angen gweithredu ar frys, yn enwedig gan fod y Senedd yn mynd at dorriad ddiwedd wythnos nesaf, ac roedd yn awyddus i sicrhau atebion cadarn cyn hynny. Nododd hefyd y byddai'n cyfleu'r teimladau hyn yn ogystal â'r prif bwyntiau wrth Lywodraeth Cymru. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad a dywedoodd ei bod yn amlwg bod angen inni ddysgu gwersi o brofiadau'r gorffennol a sicrhau ein bod yn pwysleisio hunaniaeth unigryw Cymru. Nododd y byddai cyfarfod arall o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Gymru Ryngwladol yn cael ei gynnal cyn i Gymru ymddangos yng Nghwpan y Byd ac y byddai'n ddefnyddiol neilltuo ychydig o amser yn y cyfarfod hwnnw i gael y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd materion yn ymwneud â Chwpan y Byd.